Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Ionawr 2023

1. Cefndir

Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Ar-lein (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022. Fe'i noddir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon[1]

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

> *"A Bill to make provision for and in connection with the regulation by OFCOM of certain internet services; for and in connection with communications offences; and for connected purposes."*

3. Cafodd y Bil ei gario drosodd i sesiwn 2022-23 Senedd y DU,[2] ac aeth i'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Mai 2022. Cafodd ei ystyried wedyn yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, a chafodd ei drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Ionawr 2023. Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi drannoeth; mae disgwyl i'r Bil gael ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Chwefror 2023.[3]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 30 Mawrth 2022, gosododd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron Senedd Cymru mewn perthynas â'r Bil.[4]

---

[1] Y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y'i cyflwynwyd (Bill 285 2021-22)
[2] Y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y'i cyflwynwyd (Bill 4 2022-23)
[3] Er y cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Bil ar gyfer ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yn cyfeirio at rifau cymalau fel y maent yn ymddangos yn y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd ar ôl ail eisteddiad y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Rhagfyr 2022. Er hwylustod, mae rhifau cymalau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at rifau cymalau fel y maent yn ymddangos yn y fersiwn honno o'r Bil.
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Diogelwch Ar-lein, Mawrth 2022

6. Gwnaethom adrodd ar y Memorandwm ar 28 Mehefin 2022.[5] Yn ein hadroddiad, gwnaethom nodi a chytuno gydag asesiad y Dirprwy Weinidog o'r darpariaethau o fewn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd.[6] Gwnaethom hefyd rannu ein barn y dylai'r Memorandwm fod wedi cyfeirio at y weithdrefn (gadarnhaol ddrafft) sydd ynghlwm wrth y pŵer i wneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion Cymru yng nghymal 175(5) (cymal 189(5) o'r Bil erbyn hyn), o ystyried mai pŵer Harri VIII ydyw.[7]

7. Mewn llythyr yn ymateb i'n hadroddiad, eglurodd y Gweinidog Newid Hinsawdd:

> *"Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru (a geir yn Rhan 2 o Atodlen 1) a fydd wedi'u heithrio rhag cael eu rheoleiddio o dan y Bil. Mae pŵer Harri VIII yn galluogi diwygio deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, a allai effeithio ar gymhwyso darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â materion datganoledig. O ystyried natur pwerau Harri VIII, ystyrir y dylent fod yn destun digon o graffu gan y Senedd. Felly, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn addas. Felly, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn addas."*[8]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

8. Ar 28 Medi 2022, gosododd Gweinidog yr Economi (y Gweinidog) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.[9]

9. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 ar 19 Rhagfyr 2022.[10] Yn ein hadroddiad, gwnaethom nodi, a chytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 152–154 a 156 o'r Bil (cymalau 156, 158, 159 a 162 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin).[11] Fodd bynnag, gwnaethom argymell y

---

[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein, Mehefin 2022
[6] Ibid., paragraff 16
[7] Ibid., paragraff 18
[8] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Gorffennaf 2022
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Diogelwch Ar-lein, Tachwedd 2022
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein, Rhagfyr 2022
[11] Memorandwm Rhif 2, paragraff 22 a chasgliad 1

dylid ceisio cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer cymal 159 ac Atodlen 14 i'r Bil (cymal 165 ac Atodlen 14 i'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin).[12] Gwnaethom nodi hefyd bod cymal 151, yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar ei gyfer, wedi cael ei ddileu o'r Bil erbyn i ni gyflwyno adroddiad ac o'r herwydd nid oedd angen cydsyniad y Senedd mwyach.[13]

10. Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad ar 18 Ionawr 2023. Nododd y Gweinidog ein hargymhelliad, a chydnabu fod gwir angen cydsyniad ar gyfer cymal 159 ac Atodlen 14 i'r Bil (cymal 165 ac Atodlen 14 i'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin). Cadarnhaodd fod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r darpariaethau hynny (gweler ystyriaeth o Femorandwm Rhif 4 isod).[14]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3)

11. Ar 8 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach[15] (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

12. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 16 Chwefror 2023.[16] Estynnwyd y dyddiad cau yn ddiweddarach i 2 Mawrth 2023.[17]

13. Mae'r Gweinidog yn egluro bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i Ran 10 o'r Bil a oedd yn gofyn am gyflwyno'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.[18]

14. Dywed y Gweinidog fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau ychwanegol a ganlyn:

[12] Memorandwm Rhif 2, paragraff 24 ac argymhelliad 1
[13] Memorandwm Rhif 2, paragraff 23
[14] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Weinidog yr Economi, 18 Ionawr 2023
[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Bil Diogelwch Ar-Lein, Tachwedd 2022
[16] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelwch Ar-Lein, Tachwedd 2022
[17] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Ar-Lein, Ionawr 2023
[18]Memorandwm Rhif 3, paragraffau 18-21

- Gwelliant NC41 (cymal 160 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin) – creu troseddau o anfon neu ddangos delweddau sy'n fflachio'n electronig; a

- Gwelliant NC13 (cymal 157 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin) – esemptiadau o'r troseddau o dan gymal 151 bryd hynny (trosedd cyfathrebiadau niweidiol) a chymal 152 (trosedd ffug gyfathrebiadau).[19]

15. Mae'r Gweinidog yn cadarnhau mai barn Llywodraeth y DU yw bod y darpariaethau newydd hyn yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol.[20]

16. Ym mharagraffau 29–31 o Femorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi ei resymau dros wneud darpariaethau i Gymru yn y Bil, ac yn nodi mai'r Bil yw'r "cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i reoleiddio darparwyr rhyngrwyd gyda chysondeb a fydd yn amddiffyn pobl Cymru."

17. Mae'r Gweinidog yn argymell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau ychwanegol.[21]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4)

18. Ar 21 Rhagfyr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach[22] (Memorandwm Rhif 4) mewn perthynas â chymalau a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, ond nad oeddent wedi'u cynnwys mewn memoranda blaenorol.

19. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 4 erbyn 2 Mawrth 2023.[23]

20. Mae'r Gweinidog yn egluro bod Memorandwm Rhif 4 wedi'i osod "yn dilyn dadansoddiad cyfreithiol pellach" o'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.[24]

---

[19] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 22–27
[20] Memorandwm Rhif 3, paragraff 28
[21] Memorandwm Rhif 3, paragraff 34
[22] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), Bil Diogelwch Ar-Lein, Rhagfyr 2022
[23] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Ar-Lein, Ionawr 2023
[24] Memorandwm Rhif 4, paragraff 14

21. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, mae'r Gweinidog yn dweud nad oes angen cydsyniad mwyach ar gyfer cymal 151, y gofynnwyd am gydsyniad ar ei gyfer ym Memorandwm Rhif 2, gan ei fod wedi'i ddileu o'r Bil.[25]

22. Mae'r Gweinidog hefyd yn dweud bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 165 ac Atodlen 14, a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd,[26] ac yn bwnc yr argymhelliad yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 2.

23. Mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod cymal 165 yn cyflwyno Atodlen 14, sy'n gwneud gwelliannau canlyniadol i'r cymalau a ganlyn:

- cymal 156 – trosedd gyfathrebu ffug;
- cymal 158 – trosedd gyfathrebu fygythiol;
- cymal 160 – trosedd delweddau sy'n fflachio;
- cymal 163 – trosedd o anfon etc ffotograff neu ffilm o organau cenhedlu.[27]

24. Mae'r Gweinidog yn ailadrodd ei ddatganiad mai'r Bil "yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i reoleiddio darparwyr rhyngrwyd gyda chysondeb a fydd yn amddiffyn pobl Cymru."[28]

25. Mae'r Gweinidog yn dweud bod Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym Memorandwm Rhif 2, a bod y darpariaethau ym Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â'r un darpariaethau.[29]

26. Mae'r Gweinidog yn argymell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.[30]

[25] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 15–18
[26] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 19–21
[27] Mae angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 156, 158 a 160. Cymalau 156 a 158 oedd pwnc Memorandwm Rhif 2 ac mae cymal 160 yn ddarostyngedig i Femorandwm Rhif 3. Nid oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 163 gan nad oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i greu troseddau rhywiol (sy'n droseddau mewn categori rhestredig at ddiben *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*).
[28] Memorandwm Rhif 4, paragraff 23
[29] Memorandwm Rhif 4, paragraff 24
[30] Memorandwm Rhif 4, paragraff 28

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

27. Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 3 a Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 16 Ionawr 2023.[31]

28. Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar y ddau femorandwm ar 23 Ionawr 2023.[32]

Ein barn ni

29. Rydym yn nodi asesiad y Gweinidog bod cymalau 157, 160, a 165, ac Atodlen 14 i'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd.

30. Rydym yn croesawu penderfyniad y Gweinidog i ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 165 ac Atodlen 14 i'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, fel y gwnaethom argymell yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 2.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod cymalau 157, 160, a 165, ac Atodlen 14 i'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, yn cynnwys darpariaeth sy'n dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.1(i).

[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2023